



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

at Curon Wyn - curon@wyn.cymru

26 Ebrill 2016

Annwyl Curon Wyn,

Cwyn mewn perthynas ag ATISN 10237 Y Termiadur Addysg a'r Gronfa Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg

Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru ar 24 Mawrth 2016 i'ch cais Rhyddid Wybodaeth uchod, fe wnaethoch chi ysgrifennu eto ar 28 Mawrth i ofyn am adolygiad mewnol. Yn y llythyr hwn, fe nodoch pum pwynt:

1. "O ran y Termiadur Addysg, nodaf fod wybodaeth dan ofal trydydd parti ar eich rhan dal yn wybodaeth yr ydych yn dal yn ôl y gyfraith".
2. "Ar y 28 Ionawr 2016, fe e-bostiais Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru ynglŷn a drwydded BydTermCymru, gan nad yw'r drwydded ar gael yn Gymraeg".
3. "Ni chredaf fod Uned Technoleg Iaith Prifysgol Bangor yn cydymffurfio a'r grant cynnal a chadw'r Termiadur addysg. Nodaf yn benodol fod mwy nag un term y cyfateb i "download" a bod yr ap Termiadur Addysg dim yn bodoli mwyach, a wnewch ymchwilio i hyn os gwelwch yn dda".
4. "Nodwch fe ofynnais ar gyfer y "Ceisiadau Grant, marciau ac amodau cyllid y Gronfa Dechnoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg". Dim ond y marc terfynol ar gyfer y ceisiadau llwyddiannus yr ydych wedi rhyddhau, heb gynnwys sut daethoch i'r marc yma".
5. "Nid wy'n credu fod yr esempiad yn berthnasol, yn enwedig ar gyfer ceisiadau llwyddiannus, gan fod y wybodaeth yr ydych wedi cadw'n ôl yn berthnasol i sicrhau eich bod wedi gwneud y penderfyniad cywir, a bod y prosiect wedi cyflawni'r hyn a rhoddwyd yn y cais".

Rwyf wedi ystyried eich cwyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd yng [Nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar wneud ceisiadau am wybodaeth](#)

<http://wales.gov.uk/about/foi/makerequest/?lang=en> sydd ar gael drwy'r post ar gais neu ar y rhyngwrdd. Dyma ganlyniadau fy ymholiadau:

Credaf nad yw pwyntiau 2 a 3 yn cyfateb i'ch ymholiad gwreiddiol, ac felly nid wyf wedi adolygu'r pwyntiau hyn. Serch hynny, rwy'n deall eich bod yn cyfathrebu gyda Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru ynglŷn â thrwyddedau Term Cymru, sef pwynt 2. O ran pwynt 3, rwyf wedi derbyn y cyngor isod gan yr Uned Iaith o fewn Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod Uned Technoleg Iaith Prifysgol Bangor yn cydymffurfio a gofynion y grant o gynnal a chadw'r Termiadur Addysg. Cynhelir cyfarfodydd monitro bob chwe mis a chaiff taliadau eu rhyddhau yn seiliedig ar dderbyn tystiolaeth derbyniol o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni. O ran eich pwynt ynglŷn a'r ffaith 'bod mwy nag un term yn cyfateb i "download"' - mae un yn ferf 'llwytho i lawr' a'r llall yn enw 'lawrlwythiad'. Mae'r wybodaeth a geir o dan 'Canllawiau' ar wefan y Termiadur Addysg yn nodi'r broses a ddilynir i safoni termau ynghyd a'r meini prawf a'r safonau rhyngwladol a ddilynir er mwyn sicrhau bod termau yn ieithyddol gywir: http://www.termiaduraddysg.org/?page_id=14

Fe nodwch yn eich ebost 'bod yr ap Termiadur Addysg dim yn bodoli mwyach'. Mewn cyfarfod monitro o'r grant ar 24 Medi 2014 cytunwyd i '...canolbwyntio ar gefnogi Y Termiadur Addysg o fewn yr Ap Geiriaduron yn y dyfodol yn hytrach na fel ap ar wahân... Cytunwyd y byddai canolbwyntio ar un ap yn ddoeth gan nad yw defnyddwyr yn dymuno gorfod gosod sawl ap gwahanol ar eu ffonau. Nodwyd y byddai hyn hefyd yn symleiddio marchnata'r ap ac yn arbed amser datblygu gan na fyddai angen rheoli dau ap yn yr App Store, Google Play, Amazon App Store etc.'

O ran pwynt 1, rwyf wedi ystyried y llythyr cynnig grant 2014-2017 ar gyfer y Termiadur Addysg. Rydych eisoes wedi derbyn copi o'r llythyr cynnig grant yma fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru ar 24 Mawrth 2016. Mae paragraff 13 o'r llythyr cynnig grant yn nodi nad oes unrhyw hawliau perchnogaeth eiddo deallusol yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru yn sgil gwaith a ymgwymerir o dan amodau'r grant yma. Amgaeaf y geiriad priodol isod:

Hawliau Eiddo Deallusol a Chyhoeddusrwydd

(a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn yn trosglwyddo i ni unrhyw hawliau mewn eiddo deallusol a grëir gennych chi o ganlyniad i'r Dibenion.

Tra'n nodi'r pwynt uchod, ni welaf unrhyw gymal arall yn y llythyr cynnig grant sy'n awgrymu fod derbynnydd y grant yn dal y wybodaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Parthed pwynt 4, yn eich cais gwreiddiol, roeddech yn gofyn am farciau ceisiadau grant 2015-16. Mewn ymateb i'ch cais am adolygiad, rwyf wedi gofyn am fwy o fanylion a disgrifiad o'r broses, yn ogystal a'r marciau ar gyfer pob elfen. Atodir hwn (Atodiad 1). Fe welwch o Tabl A a Tabl B fod y marciau ar gyfer yr holl geisiadau, boed yn lwyddiannus neu'n aflwyddiannus, wedi'u hamgáu.

O ran sut yr aseswyd y ceisiadau, dyma eglurhad o'r system sgorio, fel a ddarparwyd gan yr Uned Iaith

1. *Eglurwyd y meini prawf a'r system sgorio o flaen llaw ar dudalennau 11-15 o:*
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/141126-guidance-and-criteria-for-grant-scheme-cy.pdf>
2. *Sgoriwyd ceisiadau (Tabl A) yn ôl y criteria hyn. Ystyriwyd y marciau a ffactorau eraill o'r un meini prawf er mwyn llunio rhestr fer*
3. *Trafododd panel pob cais ar y rhestr fer. Rhoddwyd marciau (Tabl B). Ystyriwyd y marciau a ffactorau eraill o'r un meini prawf wrth argymhell rhestr o brosiectau i dderbyn grant.*
4. *Nid o reidrwydd y ceisiadau gyda'r sgôr uchaf oedd yn cael eu hargymhell. Er enghraifft, cafwyd dau gais am ap treiglo a dewiswyd argymhell dim ond un o'r ddau.*

Wrth ystyried pwynt 5, rwyf wedi ystyried y ceisiadau grant gwreiddiol, gan ystyried y fersiwn gwreiddiol ochr wrth ochr gyda'r fersiwn lle defnyddiwyd esmpiadau gan y swyddogion a ddeliodd gyda'r cais gwreiddiol. Yn sgil yr adolygiad hwn, rwyf wedi dod i'r farn ar gyfer 11 o'r ceisiadau fod gormod o destun wedi ei gynnwys o fewn yr esmpiadau ac y dylid diwygio'r ceisiadau gan ryddhau mwy o wybodaeth. Serch hynny, rwyf o'r farn fod angen cydbwysu budd y cyhoedd gyda hawl cwmnïau i gadw gwybodaeth sensitif yn gyfrinachol ac felly nid wyf wedi hepgor yr esmpiadau yn llwyr. Amgaeaf fersiynau diwygiedig o'r ceisiadau grant yn Atodiadau 2-12, gan gynnwys ceisiadau Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor.

Os ydych yn parhau'n anfodlon â'r ymateb hwn, mae gennych hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Yn gywir

Prys Davies
Dirprwy Gyfarwyddwr : Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
prys.davies@wales.gsi.gov.uk
029 2082 5031